# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-05-08)

**SLC114**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Gorchmynion Ad-dalu Rhent

**(Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008**

O dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Tai 2004 gall awdurdodau tai lleol wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl i orchymyn ad-daliad rhent gael ei wneud mewn cysylltiad â Thai Amlfeddiannaeth a drwyddedwyd o dan neu dŷ y mae'n ofynnol iddo gael ei drwyddedu o dan Ran 2 ond nad yw wedi'i drwyddedu. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r dibenion y ceir defnyddio arian a dderbynnir gan awdurdod tai lleol o dan Orchymyn Ad-dau Rhent ar eu cyfer a hefyd yn nodi bod symiau nas defnyddir at ddiben a bennir yn y Rheoliadau i gael eu talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

### Gweithdrefn: Negyddol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Er na nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.3(i) gan ei fod yn cynnwys darpariaeth - rheoliad 4 - , sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau a nodwyd uchod, yn gofyn am daliad i Gronfa Gyfunol Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Chwefror 2008**